



O'r grifft i'r broga




1. Bydd brogaod cyffredin (llyffantod melyn yn y Gogledd) yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau fel oedolion ar dir. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth byddant yn mynd i byllau dŵr bas i fwrw eu grifft.




2. Am **wythnos** neu ddwy bydd y penbwl yn bwydo ar y maetholion yn yr wy. Y tu mewn i'r wyau, bydd y penbyliaid yn tyfu cynffon a thagellau allanol (sy'n edrych yn debyg i wyntyllau) er mwyn gallu anadlu o dan y dŵr. Ar ôl pythefnos bydd y penbwl yn nofio'n rhydd, gan fwydo ar algâu.



3. Ar ôl **pedair wythnos** aiff y tagellau allanol yn rhan o'r penbwl a chaiff tagellau mewnol eu defnyddio.



4. Rhwng **pump ac wyth wythnos** bydd y penbyliaid yn datblygu coesau bychain. Bydd eu pennau'n fwy amlwg. Byddant hefyd yn dechrau bwydo ar fân bryfetach. Bydd chwydd yn ymddangos bob ochr i'w cynffonnau a choesau ôl yn datblygu.



5. Rhwng **10 a 12 wythnos** bydd y penbwl yn datblygu coesau blaen. Mae'r penbwl yn awr yn edrych yn fwy fel broga ac yn araf bydd y gynffon yn diflannu.



6. O gwmpas **12 i 16 wythnos**, gan ddibynnu ar y bwyd sydd ar gael ac ar dymheredd y dŵr, mae'r broga wedi datblygu i'w lawn dwf. Bydd brogaod llawn dwf yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau allan o'r dŵr mewn mannau llaith, yn bwyta pryfed ac anifeiliaid bychain. Bydd brogaod llawn dwf yn mynd yn ôl i'r dŵr i fridio. Bydd y rhan fwyaf o frogaod yn byw rhwng tair a phedair blynedd. Bydd rhai brogaod yn byw cyn hired â 10 neu 11 o flynyddoedd. Mae gaeafgysgu'n rhan fawr o gylch blynyddol y broga - mae'n dechrau ym mis Hydref ac yn diweddu ym mis Ionawr neu fis Chwefror.